# Teils llawr canoloesol yng Nghymru

Archaeoleg ar eich stepen drws

Roedd teils llawr ceramig yn addurn ffasiynol a drud, ac yn ffefryn gan gyfoethogion y canoloesoedd. Mae'r canllaw hwn yn gyflwyniad i'r teils o Gymru.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

amgueddfa cymru
national museum wales





## Beth yw'r teils?

Mae teils ym mhobman! Heddiw teils ar gael ym mhob lliw a llun, yn feintiau a deunydd a lliw a gorffeniad o bob math sy'n adlewyrchu ffasiwn y cyfnod. Roedd teils ceramig y canoloesoedd yn ddrud, ac yn cael eu defnyddio'n bennaf mewn cestyll, abatai, eglwysi, a chartrefi teuluoedd cyfoethog. Cafodd y gwrthrychau atyniadol, gyda'u gorffeniad lliwgar a'u patrymau hardd, eu copïo gan y Fictoriaid wrth iddyn nhw adfywio'r arddull Gothig Mae teils yn ein helpu i ddeall ffasiwn, tueddiadau, gweithgynhyrchu a masnach y canoloesoedd.



## Casgliadau teils

Gwyddom am deils llawr mewn dros 100 o leoliadau yng Nghymru. Cawsant eu gosod yn wreiddiol fel pafinau, ond bellach mae'r rhan fwyaf yn deils unigol mewn amgueddfeydd a chasgliadau preifat. Mae rhai yn dal yn eu lleoliad gwreiddiol, yn aml wedi'u hailosod wrth adnewyddu. Mae esiamplau prin o bafinau canoloesol gwreiddiol yng Nghadeirlan Tyddewi ac Eglwys San Steffan, Pencraig (Powys). Yn Amgueddfa Cymru mae un o'r casgliadau cyfeirio mwyaf, gyda dros 1000 o ddarnau teils o dros 50 o leoliadau yng Nghymru.




## Cynhyrchu

Byddai clai teils yn cael ei gloddio mewn pyllau clai. Roedd y clai garw llawn grit yn cael ei dreulio a'i feddalu cyn ei ddefnyddio. Mae tystiolaeth o gynhyrchu teils yn Sir Fynwy a Sir Ddinbych. Mae astudio mathau gwahanol o glai yn rhoi cliwiau i fan cynhyrchu'r teils.
Byddai cynhyrchwyr teils crwydrol yn aml yn sefydlu gweithdai dros-dro gerllaw'r adeiladau y bydden nhw'n eu hadeiladu.



## Golwg

Roedd teils sgwâr yn gyffredin, yna teils petryal a siapau mosaig. Byddai teils mosaig yn cael eu torri i dempled, a teils sgwâr a phetryal yn cael eu gwasgu mewn mowld.
Byddai'r technegau addurno'n amrywio. Cai teils deuliw eu creu drwy lenwi patrwm negatif â chlai gwyn oedd yn cyferbynnu â chlai coch. Byddai teils unlliw yn aml yn cael eu haddurno â cherfwedd a gwrth-gerfwedd, argraffu llinell a weithiau â llaw.
Cai'r teils eu gorchuddio â gwydriad plwm, wedi'i liwio â metelau fel copr.



## Lleoliadau

Teils deuliw oedd fwyaf cyffredin yn ne Cymru, wedi'u dylanwadu gan fasnach â de-orllewin Lloegr a dyffryn Hafren. Mae addurn teils unigol yn bodoli gydag addurn fleur-de-lys, griffwn ac arfbeisiau. Mae addurn mwy nag un teilsen yn cynnwys ffenestri gothig, a golygfeydd o helfâu a marchogion.
Yng nghanolbarth a gogledd Cymru, addurn argraffu llinell a teils mosaig oedd fwyaf cyffredin, wedi'u dylanwadu gan fasnach â chanolbarth a gogledd Lloegr. Byddai teils mosaig o siapau gwahanol yn cysylltu i greu patrymau cymhleth a manwl.